

Cyngor i Amddiffyn Hawliau Plant

Sylwadau terfynol ar gyfer y Deyrnas Unedig gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



➔ Mae gan bob plentyn hawliau, ni waeth pwy ydyn nhw. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i'r CCUHP. Fe wnaethom ni gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r gyfraith hon yn golygu bod rhaid i Weinidogion Llywodraeth Cymru:

- ystyried hawliau plant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud
- hyrwyddo'r CCUHP i bawb yng Nghymru.

Gwirio hawliau plant

Mae yna Bwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n grŵp o 18 o bobl o bob cwr o'r byd. Maen nhw'n edrych i fyny ar sut mae gwledydd ledled y byd yn parchu hawliau plant.



Bob pum mlynedd mae'n rhaid i'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, siarad â'r Pwyllgor am y cynnydd rydym ni'n ei wneud ar hawliau plant.



Fel rhan o'u harchwiliad ar gynnydd mae'r Pwyllgor yn gwrandao ar blant ac yn edrych ar adroddiadau ganddynt. Cynhyrchodd grŵp o blant a phobl ifanc o fenter Cymru Ifanc adroddiad ac ymweld â'r Pwyllgor yng Ngenefa yn ôl ym mis Chwefror 2023. Fe wnaethom nhw siarad â nhw am faterion pwysig sydd o bwys i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dywedodd Adroddiad **Cymru Ifanc** mai rhai o'r meysydd pwysicaf i blant ar draws Cymru yw:

i Cymru Ifanc — grŵp o blant a phobl ifanc sy'n helpu Llywodraeth Cymru drwy ddweud wrthynt nhw beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Costau byw



Iechyd Meddwl a Lles



Caethiwed a Chamddefnyddio Sylweddau



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



[Adroddiad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)



Yna ysgrifennodd y Pwyllgor adroddiad gyda rhestr o'r pethau maen nhw am i ni eu gwneud i wella, amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant — **eu Hadroddiad Sylwadau Cloi**.

➔ **Mae'r llyfryn hwn yn dweud mwy wrthynt chi am y sylwadau cloi ar gyfer y DU a'r camau yr oedd y Pwyllgor yn credu y gallai fod angen i ni eu cymryd i ddiogelu hawliau plant yng Nghymru.**





1. Camau i Lywodraethau

Mae'n rhaid i ni wneud cymaint ag y gallwn ni i hyrwyddo a diogelu hawliau plant.



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Y gyfraith

Gwirio bod ein holl gyfreithiau yn cefnogi hawliau plant. Os nad ydyn nhw, fe ddylen ni eu newid.

Brexit

Gwirio sut mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar hawliau plant a'u hamddiffyn os oes angen.

Sicrhau bod plant yn cael eu hawliau

Datblygu polisiau a chynlluniau sy'n sicrhau bod plant yn cael eu hawliau. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys sut i helpu plant sydd angen cymorth ychwanegol fel plant sy'n byw mewn tloedi neu blant ag anabledd.

Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith o ysgrifennu'r cynlluniau hyn.

Mae angen digon o adnoddau i gyflawni'r cynlluniau hyn.

Gweithio gyda'n gilydd

Gweithio gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant.

Arian

Meddwl am hawliau plant pan fyddwn ni'n gwario arian.

Dylai plant gael dweud eu dweud am sut mae arian yn cael ei wario.

Amddiffyn pob plentyn

Dylai pawb o dan 18 mlwydd oed gael eu hystyried yn gyfreithiol fel plentyn, gan gynnwys pobl ifanc 16 i 17 mlwydd oed.

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Cynllunio sut i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant. Dylai plant fod yn rhan o'r gwaith o ysgrifennu'r cynllun hwn.

Dylai pobl sy'n gweithio gyda phlant gael hyfforddiant hawliau plant.

Casglu gwybodaeth

Casglu gwybodaeth yn well fel y gallwn ni ddeall pa mor dda mae hawliau plant yn cael eu cefnogi a'u parchu. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i ddiogelu hawliau plant.

Cefnogaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith

Pan fydd plant yn teimlo nad ydynt yn cael eu hawliau, dylent fod â ffyrdd diogel a hawdd o wneud cwyn. Dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael os oes angen.

Dylai pobl fel cyfreithwyr a barnwyr gael hyfforddiant ar hawliau plant.

Hawliau plant a busnesau

Gweithio gyda Llywodraeth y DU a sicrhau bod cwmnïau'n parchu hawliau plant, eu hiechyd a'r amgylchedd.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 4 Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod eich hawliau chi'n cael eu parchu.

Erthygl 42 Dylai pawb wybod am y CCUHP.

Erthygl 44 Rhaid i'r Llywodraeth adrodd ar sut maen nhw'n amddiffyn eich hawliau.





2. Camau i gefnogi'r 4 egwyddor gyffredinol



Mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein helpu i ddeall yr holl hawliau eraill yn y CCUHP.

Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Atal gwahaniaethu

Gwahaniaethu — pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg neu'n cael ei fwlio oherwydd pwy ydyn nhw.

Codi ymwybyddiaeth a'i gwneud yn glir nad yw gwahaniaethu byth yn iawn.

Datblygu cynlluniau, prosiectau a rhaglenni sy'n helpu i atal gwahaniaethu.

Sicrhau bod plant yn gallu cael help os ydynt yn cael eu trin yn annheg.

Datblygu unrhyw gyfreithiau newydd sydd eu hangen i atal gwahaniaethu a throseddau casineb.

Gwrando ar y plant a'u cynnwys.

Gwneud beth sydd orau i'r plentyn

Meddwl beth sydd orau i blant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Sicrhau ein bod ni (a gweithwyr proffesiynol eraill) yn defnyddio'r offeryn asesu effaith ar hawliau plant a gwirio sut y bydd penderfyniadau'n effeithio ar fywydau plant.

Yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad

Atal plant rhag mynd yn sâl neu farw oherwydd pethau fel tlodi, gwahaniaethu neu anabledd.

Sicrhau bod plant yn cael cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles.

Parch at farn y plentyn

Sicrhau bod pob plentyn yn gallu mynegi ei farn a'i fod yn cael ei gymryd o ddifrif. Dylem hyrwyddo cyfranogiad a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant ar hawliau plant.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 2 Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn.

Erthygl 3 Mae'n rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i mi.

Erthygl 6 Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

Erthygl 12 Mae gen i'r hawl i gael gwrandawriad a'm cymryd o ddifrif.





3. Camau i gefnogi hawliau a rhyddid plant



Mae gan bob plentyn hawliau a rhyddid sy'n perthyn iddyn nhw o'u genedigaeth. Does dim rhaid iddyn nhw wneud dim i'w cael nhw.

Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Hawl i hunaniaeth

Sicrhau bod gan bob plentyn ryddid i fynegi pwy ydyn nhw a'r hunaniaeth maen nhw'n ei dewis.

i Hunaniaeth — y pethau sy'n eich gwneud chi yn chi, a sut rydych chi'n gweld eich hun — bywyd teuluol, diwylliant, credoau, gallu, ethnigrwydd, rhywedd a llawer mwy.

Cynnwys plant mewn cynlluniau sy'n effeithio ar eu hawl i gael hunaniaeth.

Rhyddid mynegiant a chrefydd

Sicrhau:

- bod plant yn rhydd i ddewis eu crefydd neu gredoau
- bod plant yn teimlo'n rhydd i fynegi eu crefydd a'u credoau
- nad yw cyfreithiau a pholisïau'n trin rhai plant yn annheg nac yn eu stigmatiddio oherwydd eu credoau.

i Stigmatiddio — ystyried bod rhywbeth yn ddrwg neu bod â chywilydd ohono.

Ni ddylid gwneud i blant ymuno ag addoli yn yr ysgol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.



Ymuno â grwpiau a phrotestio heddychlon

Sicrhau bod gan blant y rhyddid i ymuno â grwpiau a siarad am bethau sy'n bwysig iddyn nhw fel newid hinsawdd. Ni ddylai cyfreithiau na pholisïau'r heddlu ddileu'r rhyddid hwn.

Rhoi'r gorau i ddefnyddio dyfeisiau mosgito (peiriannau sy'n gwneud sŵn uchel y gall plant yn unig ei glywed) i atal plant rhag ymgasglu.



Preifatrwydd

Sicrhau bod yr heddlu'n dilyn rheolau ynghylch pryd y gallant stopio a chwilio plant.



Gwybodaeth

Sicrhau bod pob plentyn yn gallu mynd ar-lein a chael gwybodaeth. Ni ddylai neb gael ei ddal yn ôl gan bethau fel tlodi.

Efallai y bydd angen cyfreithiau newydd i amddiffyn hawliau plant ar-lein.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 7 Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad.

Erthygl 8 Mae gen i hawl i hunaniaeth, cenedligrwydd a pherthynas deuluol.

Erthygl 13 Mae gen i'r hawl i ddarganfod a rhannu gwybodaeth.

Erthygl 14 Mae gen i'r hawl i gael fy meddyliau a'm credoau fy hun ac i ddewis fy nghrefydd gydag arweiniad fy rhieni.

Erthygl 15 Mae gen i'r hawl i gyfarfod â ffrindiau ac i ymuno â grwpiau.

Erthygl 16 Mae gen i'r hawl i gadw rhai pethau'n breifat.

Erthygl 17 Mae gen i'r hawl i gael gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, cyn belled â'i fod yn ddiogel.



4. Camau i gadw plant yn ddiogel rhag trais a niwed



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

⊗ Niweidio plant

Newid y gyfraith fel na ellir defnyddio dyfeisiau niweidiol fel taser neu fwledi plastig ar blant neu mewn torfeydd lle gallai plant fod yn bresennol.

Datblygu rheolau newydd i atal oedolion rhag ffrwyno plant oni bai nad oes unrhyw ffordd arall o'u cadw'n ddiogel.

i Ffrwyno — dal plentyn mewn ffyrdd sy'n eu hatal rhag symud.

✋ Smacio

Yng Nghymru rydym ni wedi newid y gyfraith felly mae cosb gorfforol, fel smacio, yn anghyfreithlon. Dylem wirio sut mae'r gyfraith honno'n gweithio, a sicrhau bod rhieni'n cael cymorth i ddatblygu eu sgiliau rhianta.

👤 Camdriniaeth, esgeulustod, cam-fanteisio a cham-drin rhywiol

Gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.

Sicrhau:

- bod digon o adnoddau a gweithwyr proffesiynol medrus i weld pan fo plentyn mewn perygl, ymchwilio a gweithredu
- bod plant sydd wedi cael eu trin yn wael yn cael cymorth i wella.

Ni ddylid gwneud i unrhyw blentyn deimlo mai eu bai nhw oedd yr hyn ddigwyddodd.

👤 Yn ddiogel rhag trais

Sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel rhag pobl dreisgar a allai eu brifo. Mae hynny'n cynnwys gangiau yn y gymuned.

⚠️ Arferion niweidiol

Mae oedran priodi eisoes wedi'i godi i 18 mlwydd oed yng Nghymru a Lloegr. Dylem ddatblygu cynlluniau sy'n codi ymwybyddiaeth ac atal arferion niweidiol. Mae hyn yn cynnwys:

- arferion niweidiol sy'n brifo merched — priodasau plant, anffurfio organau cenhedlu menywod, a thrais yn erbyn menywod
- arferion niweidiol sy'n brifo pobl LHDCRha+ — therapiau trosi.

i LHDCRha+ — lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar, cwestiynu, rhyngryw, neu arywiol.

Newid y gyfraith fel na all unrhyw un geisio newid cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd plentyn nes ei fod yn gallu penderfynu drosto'i hun.

✓ Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 19 Mae gen i'r hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael.

Erthygl 24 Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

Erthygl 28 Mae gen i hawl i gael addysg.

Erthygl 34 Ni ddylai unrhyw gyffwrdd â phlant mewn ffyrdd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus, yn annïogel neu'n drist.

Erthygl 37 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

Erthygl 39 Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.



5. Camau i gefnogi teulu a gofaluwyr eraill



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Teulu

Helpu teuluoedd drwy roi mwy o arian ac adnoddau i wasanaethau gofal plant fel bod lleoedd am ddim, neu'n fwy fforddiadwy a hefyd ar gael mewn ardaloedd gwledig.

Gofaluwyr ifanc

Gofaluwyr ifanc — gofalu am rywun yn eu teulu sy'n sâl neu'n anabl.

Codi ymwybyddiaeth o ofaluwyr ifanc fel y gall athrawon ac eraill sicrhau eu bod nhw'n cael y cymorth maen nhw ei angen.

Plant mewn gofal

Weithiau ni all plentyn fyw gyda'i deulu oherwydd nad yw'n ddiogel neu na allant ddiwallu ei anghenion. Dylid sicrhau bod plant mewn gofal:

- yn cael yr holl gefnogaeth maen nhw ei hangen
- mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion
- â gweithiwr cymdeithasol maen nhw'n dod i'w adnabod ac ymddiried ynddo.

Buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n gallu camu i mewn yn gynnar a chefnogi teuluoedd fel nad oes angen i blant fynd i ofal.

Gwrando ar blant a'u cynnwys mewn cynlluniau a phenderfyniadau am eu bywydau.

Plant gyda rhiant yn y carchar

Sicrhau bod barnwyr yn meddwl am blentyn pan fydd rhiant yn cael ei ddedfrydu. Dylai pob penderfyniad ystyried beth sydd orau i'r plentyn.

Plant ag anableddau

Sicrhau ein bod yn trin plant ag anableddau yn deg pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau ac yn eu helpu i gael eu hawliau.

Sicrhau bod ganddynt lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac y caiff eu barn ei pharchu.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 5 Dylai'r Llywodraeth barchu hawl eich teulu i'ch helpu i wybod am eich hawliau.

Erthygl 9 Mae gen i hawl i fyw gyda theulu sy'n gofalu amdana i.

Erthygl 10 Mae gen i'r hawl i weld fy nheulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

Erthygl 11 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon.

Erthygl 18 Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

Erthygl 20 Mae gen i'r hawl i amddiffyniad arbennig a help os na alla i fyw gyda fy nheulu fy hun.

Erthygl 21 Mae gen i'r hawl i gael y gofal gorau os caf fy mabwysiadu.

Erthygl 23 Os ydw i'n anabl, mae gen i'r hawl i ofal ac addysg arbennig.

Erthygl 25 Os nad ydw i'n byw gyda fy nheulu, dylai pobl barhau i wirio fy mod yn ddiogel ac yn hapus.

Erthygl 27 Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dillad.

6. Camau i gefnogi iechyd a lles



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Iechyd a gwasanaethau iechyd

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth gan y gwasanaethau iechyd ac nad oes rhaid iddynt aros.

Sicrhau y gall pob plentyn gael bywyd iach, hapus, heb gael ei ddal yn ôl gan bethau fel tai gwael, neu dlodi.

Dylai plant gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Diet a Maeth

Sicrhau y gall pob plentyn gael diet iach i'w helpu i dyfu a ffynnu.

Bwydo ar y Fron

Hyrwyddo manteision bwydo ar y fron a chefnogi mamau.

Iechyd meddwl

Sicrhau y gall plant gael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl cyn gynted â phosibl a'n bod yn lleihau amseroedd aros.

Sicrhau bod gan y gwasanaethau hyn ddigon o arian ac adnoddau.

Sicrhau bod plant yn cael dweud eu dweud am y cymorth maen nhw'n ei gael a chynllunio'r gwasanaethau hyn.

Dod yn oedolyn – iechyd y glasoed

Sicrhau bod plant yn dysgu am ryw a pherthnasoedd mewn ffyrdd sy'n iawn ar gyfer eu hoedran ac yn parchu pawb.

Sicrhau y gallant gael y wybodaeth gywir er mwyn:

- deall peryglon cyffuriau ac alcohol
- deall cynllunio teulu, atal cenhedlu, erthyliad ac opsiynau rhyw diogel.

Newid hinsawdd

Sicrhau cyfreithiau i helpu i leihau llygredd aer fel bod plant yn cael bywydau iach. Hefyd, mae'n rhaid i ni wneud y canlynol:

- amddiffyn yr amgylchedd
- Sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd
- cynnwys a gwrandao ar blant.

Safon byw

Gwneud popeth o fewn ein gallu i roi terfyn ar dlodi plant. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael yr holl fudd-daliadau maen nhw eu hangen a chael mwy o arian i dalu'r costau cynyddol.

Sicrhau bod gan blant le diogel a chynnes i'w alw'n gartref ac nad ydynt yn wynebu bod yn ddi-gartref.

Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 6 Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

Erthygl 18 Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

Erthygl 24 Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

Erthygl 26 Dylai fy nheulu gael yr arian sydd ei angen arnyn nhw i helpu i'm magu.

Erthygl 27 Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dillad.

Erthygl 33 Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys unrhyw effeithiau o ddefnydd cyffuriau riant).





7. Camau i gefnogi addysg a gweithgareddau eraill



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud 



Addysg

Sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd i ddysgu a mwynhau gweithgareddau.

Sicrhau bod costau bywyd ysgol — gwisgoedd, triapiau a phethau eraill — ddim yn atal plant rhag dysgu neu orffen ysgol.

Sicrhau:

- bod pob plentyn yn dysgu am ei hawliau a bod ysgolion yn eu hyrwyddo
- bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a gyda pharch
- nad oes unrhyw blentyn yn cael ei fwlio neu'n teimlo'n anniogel yn yr ysgol
- nad oes unrhyw blentyn yn cael ei ffrwyno oni bai mai dyma'r unig ffordd i'w gadw'n ddiogel
- nad oes unrhyw blentyn yn cael ei roi ar ei ben ei hun oni bai mai dyma'r unig ffordd i'w gadw'n ddiogel
- na chaiff unrhyw blentyn ei wahardd o'r ysgol oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.

Rhoi diwedd ar brofion ac arholiadau diangen sy'n achosi straen ar blant.



Gorffwys, hamdden, a gweithgareddau

Datblygu cynllun fel bod gan bob plentyn yr hawl i orffwys, chwarae a mwynhau gweithgareddau ni waeth pwy ydyn nhw, na ble maen nhw'n byw.

Cynnwys plant wrth ddatblygu'r cynllun hwn.

Sicrhau bod cwricwlwm ysgolion yn cynnwys yr hawl i chwarae.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 28 Mae gen i hawl i gael addysg.

Erthygl 29 Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd.

Erthygl 30 Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

Erthygl 31 Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae.





8. Camau i gefnogi mesurau diogelu arbennig



Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud



Plant sy'n dod o wledydd eraill

Sicrhau bod gan bob plentyn ei hawliau, gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a phlant mudol.

Gweithio gyda Llywodraeth y DU fel nad yw cyfreithiau a pholisïau'n trin rhai plant yn annheg ac yn eu hatal rhag dod yma i fyw.



Plant heb wlad reolaidd

Weithiau mae teuluoedd yn symud i Gymru i fod yn ddiogel rhag rhyfel neu fygythiadau eraill. Sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau a chefnogaeth gan wasanaethau.



Masnachu Plant

Masnachu plant — pan mae pobl yn mynd â phlant i ffwrdd ac yn eu gorfodi i wneud rhywbeth.

Gwneud mwy i gadw plant yn ddiogel rhag masnachu Mae'n rhaid i blant sydd wedi profi masnachu pobl gael yr holl gymorth maen nhw ei angen i wella.



Cyfiawnder plant

Pan fydd plant o dan 14 mlwydd oed yn gwneud rhywbeth o'i le, mae angen i ni sicrhau eu bod nhw'n cael cymorth a chefnogaeth. Ni ddylent gael eu trin fel troseddwr na chael eu barnu am fel petaent wedi cyflawni trosedd.

Dylid sicrhau bod pobl ifanc 16 i 17 mlwydd oed yn cael eu trin fel plant, nid oedolion. Dylent gael help gan y system cyfiawnder ieuencid a chael eu trin yn deg. Ni ddylid eu cadw yn nalfa'r heddlu na mewn celloedd dros nos.

Sicrhau bod llysoedd ond yn cymryd rhyddid plentyn oddi arno pan nad oes dewis arall. Ni ddylai pobl ifanc fyth gael eu hanfon i garchar oedolion.

Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant fel eu bod yn deall bod gan blant hawliau, ni waeth beth maen nhw'n ei wneud.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 22 Os ydw i'n ffoadur, mae gen i'r un hawliau â phlant sy'n cael eu geni yn y wlad honno.

Erthygl 30 Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

Erthygl 32 Ni ddylwn gael fy ngwneud i wneud gwaith peryglus.

Erthygl 33 Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys defnydd cyffuriau rhiant).

Erthygl 35 Ni ddylwn gael fy herwgipio (cymryd i ffwrdd), fy ngwerthu na fy masnachu.

Erthygl 36 Mae gen i'r hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau allai niweidio fy natblygiad.

Erthygl 37 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

Erthygl 39 Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.

Erthygl 40 Mae gen i'r hawl i gael cymorth cyfreithiol ac i gael fy nhrin yn deg os ydw i wedi cael fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith.

9. Camau i gefnogi'r Protocolau Dewisol



Ers i'r CCUHP gael ei ysgrifennu, mae'r byd wedi newid ac mae plant yn wynebu risgiau gwahanol. Mae gan y Pwyllgor set ychwanegol o reolau o'r enw Protocolau Dewisol.

Pethau y gall Llywodraethau eu gwneud

Amddiffyn plant rhag cael eu gwerthu, puteindra plant a phornograffi plant

Sicrhau nad yw plant byth yn cael eu gwerthu a'u bod yn ddiogel rhag y troseddau hyn. Mae hyn yn cynnwys bod yn ddiogel pan fyddant ar-lein.

Sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r troseddau hyn yn cael cymorth i wella. Ni ddylid byth wneud i blant deimlo'n euog neu mai eu bai nhw oedd yr hyn ddigwyddodd.

Amddiffyn plant rhag gwrthdaro arfog

Gall pobl ifanc 16 mlwydd oed ymuno â byddin y DU. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen i hyn newid i 18. Mae angen i ni weithio gyda Llywodraeth y DU a newid hyn. Tan hynny, dylai pobl ifanc dan 18 mlwydd oed allu gadael y fyddin os ydyn nhw eisiau, cael cefnogaeth a chael eu clywed.

Sicrhau bod plant sy'n dod i Gymru i ddianc rhag rhyfel yn cael yr holl gefnogaeth maen nhw ei hangen ac yn cael eu hawliau.

Cofrestru

Ar hyn o bryd, nid ydym ni (yn y DU) wedi cofrestru i'r Protocol Dewisol ar weithdrefn gyfathrebu, mae'r Pwyllgor am i ni wneud hynny.



Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb i adroddiad y Pwyllgor yn ddiweddarach eleni.

Y tro nesaf y bydd y DU yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yw 2030. Tan hynny, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu hawliau plant yng Nghymru.